CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Holl Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 9 Mai 2012

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod blynyddol y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 15 MAI 2012** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 CADEIRYDD I'R CYNGOR SIR**

Penodi Cadeirydd i'r Cyngor Sir am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

## 4 IS-GADEIRYDD I'R CYNGOR SIR

Penodi Is-Gadeirydd i'r Cyngor Sir am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 6 ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

I ystyried enwebiadau ar gyfer penodi Arweinydd y Cyngor Sir.

## 7 COFNODION

I dderbyn cofnodion o'r cyfarfodydd canlynol Cyngor Sir Ddinbych:

i) Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28 Chwefror 2012 (copi'n amgaeëdig)

ii) Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar y 27 Mawrth 2012 (copi'n amgaeëdig)

## 8 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi'n amgaeëdig) am newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn sgîl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n cynnwys creu Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a threfniadau ar gyfer penodi cadeiryddion pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

## 9 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER AELODAU

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi'n amgaeëdig) am gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Aelodau ac i awdurdodi cynllun cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2012 / 13.

## 10 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR AT Y DYFODOL

I ystyried Rhaglen Waith y Cyngor at y dyfodol (copi'n amgaeëdig)

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, John Bellis, Brian Blakeley, Joan Butterfield, June Cahill, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies, Meirick Davies, Pauline Dobb, Michael Eckersley, Christine Evans, Gwilym Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Sharon Frobisher, Ian Gunning, Diana Hannam, Colin Hughes, Neville Hughes, Rhys Hughes, Glyn Jones, Huw Jones, Morfudd Jones, Richard Jones, Gwyneth Kensler, David Lee, Paul Marfleet, Peter Owen, Dewi Owens, Allan Pennington, Barbara Smith, David Smith, David Thomas, Selwyn Thomas, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau (HW); Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), a Thrawsnewid Busnes ac Adfywio (BJ); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig a'r Swyddog Monitro (RGW); y Pennaeth Cyllid ac Asedau a'r Prif Swyddog Cyllid (PM); y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio (GB); a'r Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

**ER SYLW**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd William Cowie, bu'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, yn llywyddu'r cyfarfod fel Cadeirydd.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr William Cowie, Carl Davies, James Davies, Michael Eckersley, George Green, Rhiannon Hughes, Lucy Morris, Glyn Williams a Jane Yorke

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2012.

**Materion a Gododd –**

Tudalen 5 – Eitem Rhif 7 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2007 – gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones

am ffigur diwygiedig am yr ystadegau troseddu ar gyfer Bodelwyddan am fod tua hanner y troseddau a gofnodwyd yn gysylltiedig ag Ysbyty Glan Clwyd. Cadarnhaodd y Cynghorydd Meirick Davies ei fod wedi cael gohebiaeth oddi wrth swyddogion ynghylch y dadansoddiad o ffigurau troseddu.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2012 yn gofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

**5 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL**

Cafodd yr aelodau gyflwyniad gan Mr Steven Martin a Ms Karen Lees o Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) am Asesiad Gwella Blynyddol yr awdurdod. Cyd-destun yr Adroddiad Blynyddol oedd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwelliant parhaus. Tynnwyd sylw'r Aelodau i'r canfyddiadau fod y Cyngor –

- yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau a'i drefniadau ar gyfer gwella
- yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion gwella er byddai angen cynnydd pellach er mwyn bodloni ei nodau
- yn gwneud defnydd da o hunanasesu a gwell gwerthuso perfformiad yn ei drefniadau er mwyn darparu a gwella gwasanaethau.

Ar y cyfan, roedd y Cyngor yn gwella'r canlyniadau i breswylwyr drwy gynllunio, cyflenwi ac adrodd yn well er bod rhagor i'w wneud cyn cyflawni ei amcanion uchelgeisiol. Nid oes argymhellion ffurfiol wedi'u cyhoeddi ond nodwyd dau gynnig ar gyfer gwelliant fel a ganlyn –

- dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad cadarnach o'u heffeithiolrwydd, ac
- erbyn mis Medi 2012 dylai'r Cyngor ganfod sut bydd yn cefnogi Cynllun Cyflawni'r Rhyl yn Symud Ymlaen.

Cyflwynwyd adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) gan yr Arweinydd a'r Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes yn amlinellu ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Gwella Blynyddol. Bu'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yn myfyrio ynghylch adroddiad cadarnhaol Swyddfa Archwilio Cymru a'r cynnydd a wnaeth y Cyngor dros y pedair blynedd ddiwethaf. Amlygodd safle'r awdurdod yn gyngor uchel ei berfformiad a thalodd deyrnged i waith y cynghorwyr a'r swyddogion i gyflawni hynny. Roedd y Cynghorydd Evans yn teimlo bod y cyngor wedi canolbwyntio ar welliant parhaus gyda phrosesau cadarn yn eu lle a oedd yn gadael yr awdurdod mewn sefyllfa gadarnhaol ar gyfer gweinyddiaeth newydd y Cyngor. Rhybuddiodd hefyd y byddai angen i'r Cyngor newydd fod yn fwy arloesol ac ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau a bod yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldebau i barhau'r gwaith da. Bu'r Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes yn rhoi gwybod am ymateb y Cyngor i'r argymhellion ynghylch cryfhau'r elfen hunanasesu yn yr adolygiad o effeithiolrwydd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r ffordd yr oedd yr awdurdod yn cefnogi Cynllun Cyflawni'r Rhyl yn Symud Ymlaen.

Crybwyllodd yr Aelodau nifer o faterion a oedd yn codi o'r adroddiad gan gynnwys –

- yr angen i fynd i'r afael â'r ffaith nad oedd rhai preswylwyr yn gallu cael yswiriant eiddo neu eu bod yn talu premiymau llawer yn uwch er y gwelliannau yn yr amddiffynfeydd rhag llifogydd
- amlygu mor bwysig yw cynnwys plant a phobl ifanc yn ymgynghoriadau'r cyngor a gofyn am sicrhad yn hynny o beth
- yr angen i sicrhau bod hunanwerthuso'n digwydd ar sylfaen gadarn
- bod gwell cydlynu'n ofynnol o ran cyllid grant a ddarperir i fentrau arbennig gan Lywodraeth Cymru a gwell cyfathrebu ag awdurdodau lleol yn hynny o beth
- bod ymateb cadarnhaol wedi'i gael hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y system graffu flaenorol.

Cafwyd yr ymatebion canlynol –

- bu Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio yn rhoi gwybod am y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud i geisio dylanwadu ar Gymdeithas Yswirwyr Prydain o ran polisïau i eiddo mewn ardaloedd risg llifogydd gan gynnwys cyfarfodydd â Chris Ruane AS ac Asiantaeth yr Amgylchedd
- bu'r Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes yn rhoi gwybod am y mecanweithiau a gyflwynwyd i gynnwys plant a phobl ifanc yn ymgynghoriadau'r cyngor drwy ysgolion, clybiau ieuenctid a chanolfannau hamdden a thrwy ddosbarthu taflenni a fforymau ar-lein
- cydnabu Mr. S. Martin y mater a godwyd ynghylch gwell cyfathrebu rhwng cyrff llywodraeth a chynghorodd fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnig gwneud astudiaeth o adfywio yng Nghymru a fyddai'n cynnwys y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i phartneriaid. Cadarnhaodd hefyd fod sylwadau cadarnhaol wedi'u gwneud am yr hen system graffu ond bod y newidiadau wedi cysoni'n well y ffordd y mae'r cyngor yn rheoli ei fusnes
- cadarnhawyd y dylai'r cyfeiriad at dudalen '39', ar dudalen 4 o sleidiau'r cyflwyniad, fod yn gyfeiriad at dudalen '9'.

Dadleuodd yr Aelodau ynghylch y pwynt a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru am Gynllun Cyflawni'r Rhyl yn Symud Ymlaen a gofynnwyd am sicrhad pellach fod preswylwyr yn cael gwybod yn rheolaidd am gynnydd a datblygiadau a bod ymdrech mawr yn cael ei wneud i sicrhau buddsoddiad preifat yn yr ardal. Amlygwyd hefyd mor bwysig yw cynnal a chadw'r ardal ar ôl cwblhau'r gwaith datblygu. Bu Cyfarwyddwr Corfforaethol Trawsnewid Busnes ac Adfywio yn rhoi gwybod am ddatblygu arfau marchnata amrywiol i gefnogi'r Cynllun Cyflawni a denu diddordeb datblygwyr a buddsoddiad preifat i'r ardal. Bu hefyd yn sicrhau y byddai'r gymysgedd ofynnol o sgiliau'n cael ei datblygu'n fewnol, gan ddefnyddio arbenigedd allanol yn ôl y gofyn. Cydnabuwyd hefyd fod angen ymgysylltu â phreswylwyr a chyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd ynghylch y Cynllun a dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Daily Post i gynhyrchu cyfres o straeon cadarnhaol mewn perthynas â'r Rhyl.

Amlygodd y Prif Weithredwr nifer o faterion â blaenoriaeth i'r awdurdod gan gyfeirio'n arbennig at ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd er mwyn gwir agosáu at y gymuned. Roedd yn teimlo y dylai'r cyngor ymfalchïo yn y cynnydd yr oedd wedi'i wneud a dywedodd fod yr adroddiad yn glod i'r cynghorwyr ac i'r swyddogion.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, nodi'r adroddiad.*

Yn y man hwn (11.10 a.m.) gohiriodd y cyfarfod i gael lluniaeth.

**6 Y DRETH GYNGOR 2012/13 A MATERION CYSYLLTIEDIG**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn gofyn i'r aelodau ystyried y praeseptau a gafwyd gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned ac i ddatgan lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13. Amlinellodd y pethau canlynol –

- Cadernid yr Amcangyfrifon Cyllideb – roedd y gofyniad i arbed £3.5m yn amlwg yn risg i'r Cyngor ond roedd proses drwyadl o heriau gwasanaeth yn rhoi'r hawl i'r Cyngor fod â ffydd yng nghadernid y gyllideb, a

- Digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn – roedd lefel y balansau cyffredinol wedi gwella ac ystyriwyd eu bod yn briodol ar y cyfan o ystyried y risgiau ariannol a wynebai'r Cyngor.

Bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd, yn canmol y staff a'r cynghorwyr am y gwaith a wnaethant ar y broses gosod cyllideb dros y pedair blynedd ddiwethaf. Bu'n atgoffa'r aelodau fod y gyllideb wedi'i datblygu gyda'r bwriad o amddiffyn gwasanaethau rheng flaen cymaint â phosibl. Roedd y cynnydd o 2.8% lawer yn is na'r lefelau chwyddiant cyfredol ac, yn hanesyddol, roedd y cynnydd a gafodd Sir Ddinbych ymhlith yr isaf mewn lefelau treth gyngor yng Nghymru dros y pedair blynedd ddiwethaf. Manteisiodd y Cynghorydd Hugh Evans ar y cyfle i ddiolch i'r Aelod Arweiniol am arwain ar y gyllideb a chanmolodd gadernid yr heriau gwasanaeth a oedd wedi dwyn cyllideb synhwyrol ac yn golygu y gellir buddsoddi mewn blaenoriaethau.

Bu'r Aelodau'n adolygu effaith y cynigion Treth Gyngor fel y'u hamlinellwyd yn yr adroddiad a gofynasant am eglurhad am nifer o bethau ynghylch talu'r praeseptau a phosibilrwydd cronni llog a chasglu ardrethi busnes a'r costau cysylltiedig. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod cyllideb 2012/13 yn dilyn y blaenoriaethau a osodwyd gan y Cyngor yn y weinyddiaeth gyfredol ac na allai'r weinyddiaeth newydd eu newid.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor, ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13, yn cymeradwyo'r symiau canlynol a gyfrifwyd o ran –*

*(a) Incwm a gwariant Cyngor Sir Ddinbych / Cynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (y Ddeddf) a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2003 fel y'u dangosir yn adrannau (a) i (f) o dudalen 4 o'r adroddiad;*

*(b) Treth Gyngor Cyngor Sir Ddinbych / Cynghorau Tref a Chymuned Sir Ddinbych yn unol ag Adrannau 34(2) a 36(1) o'r Ddeddf fel y'u dangosir yn adrannau (a) a (b) o'r adroddiad, a*

(c) *Y Dreth Gyngor ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y'u dangosir yn Atodiad B o'r adroddiad.*

**7 ARGYMHELLION Y GRWP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd, yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau gan gynnwys y cynigion cyfalaf a gafwyd i'w cynnwys yng nghynllun cyfalaf 2012/13 y Cyngor.

Bu'r Cynghorydd Thompson-Hill yn ymhelaethu ar gylch gwaith a chwmpas y Grŵp Buddsoddi Strategol ac yn darparu cyd-destun i'r cynllun cyfalaf cyfredol ar ôl y gostyngiad yn y setliad cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf a oedd yn debygol o barhau. Eglurodd mai dim ond derbyniadau cyfalaf a oedd wedi'u cael go iawn ac a oedd ar gael i'w dyrannu a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Disgrifiwyd hefyd y cyllid a oedd ar gael ar gyfer 2012/13 yn yr adroddiad ynghyd â'r cyllid a ymrwymwyd eisoes. Ymhelaethodd yr Aelod Arweiniol ar argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol ac eglurodd nifer o bethau mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ar hynny ynghylch ôl troed carbon y Cyngor; y swm a fuddsoddir mewn cynnal a chadw ffyrdd, a gwaith cyfalaf ar ystadau amaethyddol. O ran gwariant ar briffyrdd, roedd y Cynghorydd Rhys Hughes yn gobeithio y byddai dyraniadau yn y dyfodol yn cael eu lledaenu'n gyfartal ledled y sir.

Ailadroddodd y Cynghorydd Eryl Williams y sylwadau a gododd yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet sef –

- bod y cronfeydd wrth gefn heb eu gwario wedi'u hymrwymo i Foderneiddio Addysg ac nid yn benodol i Ysgolion yr 21ain Ganrif (cyfeiriwyd at baragraff 4.5 o'r adroddiad) a gofynnodd i'r holl gyfeiriadau yn yr adroddiad ac yn nogfennaeth y dyfodol adlewyrchu hynny, a
- bod angen craffu ar yr argymhelliad i gyfuno ffynonellau cyllid anghymesur i greu cronfa strategol fwy o faint i gefnogi cynlluniau tref, adfywio a chymunedau, er mwyn sicrhau nad oedd cymunedau llai o faint yn colli'r cyfle i gynnig am gyllid nac yn colli'r cyfle i brosiectau mwy o faint. Cytunodd y Cynghorydd Gwilym Evans, gan ychwanegu bod rhai ardaloedd gwledig yn dibynnu ar gyllid grant i brosiectau cymunedol y dylid eu hystyried yn ystod y broses graffu.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Thompson-Hill nad oedd amser wedi bod i gywiro'r cyfeiriad at Foderneiddio Addysg yn yr adroddiad. O ran y cyllid refeniw cymunedol, cadarnhaodd nad oedd bwriad i waredu na newid y llwybr cyllid o ganlyniad i'r argymhelliad. Cynigiwyd cyfuno ffynonellau cyllid er mwyn darparu trosolwg strategol a sicrhau'r gwerth gorau.

***PENDERFYNWYD*** *cynnwys y prosiectau a ddangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yng nghynllun cyfalaf 2012/13.*

**8 ADOLYGU'R SYSTEM GRAFFU NEWYDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Busnes adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn amlinellu casgliadau adolygiad o'r system graffu newydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Ym mis Chwefror 2011 penderfynodd y Cyngor ddisodli'r pedwar pwyllgor a oedd yn seiliedig ar gyfarwyddiaeth â thri phwyllgor â thema (Partneriaethau, Cymunedau a Pherfformiad) ac adolygu'r system newydd cyn pen y deuddeg mis cyntaf. Bu'r Pennaeth yn sôn wrth yr aelodau am ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw gan roi pwyslais arbennig ar adborth yr aelodau a'u hymateb i'r holiadur craffu.

Yn ystod y ddadl ganlynol, rhoes yr aelodau ymateb cymysg i'r adroddiad a'r dehongliad o ganlyniadau'r holiadur. Amlygwyd nifer y rhai nas ymatebasant a'r rheini nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â datganiadau'r holiadur ac, yn unol â hynny, cwestiynwyd y sylfaen dystiolaeth a arweiniodd at argymhellion y swyddogion. Siaradodd y Cynghorwyr Gwilym Evans, Christine Evans, Meirick Davies, Diana Hannam a Joan Butterfield yn erbyn yr argymhelliad i gadarnhau'r strwythur newydd yn ei ffurfwedd gyfredol yn seiliedig ar y rhesymau canlynol –

- bod Cabinet a Chraffu'n rhy integredig gydag aelodau o'r ddwy swyddogaeth ar bwyllgorau eraill, ac nid oedd hynny'n gwahaniaethu'n ddigon clir rhwng y ddwy i graffu'n effeithiol
- dylid fod wedi sefydlu Grŵp Adolygu newydd i adolygu'r system er mwyn i'r broses fod yn wrthrychol
- ni chyfeiriwyd o gwbl at ymgynghori â'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a oedd wedi ystyried canfyddiadau'r adolygiad yr wythnos flaenorol
- o dan yr hen system, roedd gan yr aelodau fwy o empathi a dealltwriaeth o'r materion dan sylw, gan dynnu ar eu maes arbenigedd eu hunain i sicrhau her a chraffu effeithiol a oedd yn brin o dan y strwythur newydd
- er bod modd defnyddio'r strwythur cyfredol fel cynllun peilot, roedd gofyn llawer mwy o waith i ddatblygu craffu gydag adroddiadau a phapurau gwybodaeth llawer byrrach gan y swyddogion, ac
- o ystyried yr amheuaeth a fynegwyd gan rai aelodau, ystyrir ei bod yn rhy gynnar gwneud penderfyniad i gadarnhau'r strwythur newydd.

Er eu bod yn nodi ac yn derbyn rhywfaint o'r amheuaeth a fynegwyd gan aelodau arbennig ac yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach, roedd y Cynghorwyr John Bellis, David Smith, Ian Gunning, Hugh Evans, Bobby Feeley, Dewi Owens, Brian Blakeley a Barbara Smith yn teimlo bod craffu'n symud i'r cyfeiriad cywir a buont yn siarad o blaid parhau â'r strwythur newydd yn ei ffurfwedd gyfredol ar sail y rhesymau canlynol –

- roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod bod y trefniadau craffu newydd yn gadarn eu sylfaen ac yn datblygu'n foddhaol, a byddai hyn yn debygol o gael ei gadarnhau yn yr Adroddiad Arolygiad Estyn a oedd ar ddod
- amlygwyd bod y cynghorwyr wedi cydnabod bod angen newid a gwella wrth gytuno ar y strwythur newydd y flwyddyn flaenorol
- dylid gwneud newidiadau yn y system newydd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr aelodau yn hytrach nac ailgyflwyno'r hen system
- bod y broses newydd wedi mynd i'r afael â'r meddylfryd arwahanrwydd o dan y system o gyfarwyddiaethau ac wedi ehangu agwedd yr aelodau

- bod y mecanwaith o gynnwys Grwpiau Aelod Ardal yn y broses graffu wedi bod yn fuddiol
- dylid disgwyl trafferthion cychwynnol wrth i'r trefniadau newydd gael eu sefydlu
- nid oedd yr hen system mor effeithiol yn craffu ar berfformiad yr awdurdod gyda'i bartneriaid
- anghytunwyd bod rolau'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu wedi integreiddio gormod a'u bod yn rhy aneglur
- bod y system newydd yn caniatáu i'r aelodau gymryd mwy o ran mewn prosesau a chael gwybod rhagor am fusnes y Cyngor yn lle arbenigo mewn un maes
- bod y broses adolygu wedi'i chynnal yn ystyrlon ac wedi ystyried barn yr aelodau
- amlygwyd pwysigrwydd y tri phwyllgor craffu - (1) Partneriaethau yn gyfrwng i graffu ar bartneriaethau oherwydd y cynnydd mewn gwaith partneriaeth a'r agenda cydweithio; (2) Perfformiad yn craffu ar faterion perfformiad pwysig nad oedd lle iddynt o dan yr hen system, a (3) Cymunedau yn craffu ar faterion lleol ac yn cynnwys y gymuned a Grwpiau Aelod Ardal yn fwy ac yn cyfrannu at nod y Cyngor o agosáu at y gymuned.

Amlygodd y Prif Weithredwr mor bwysig oedd craffu'n effeithiol a nododd wahanol safbwyntiau'r aelodau. Bu'n atgoffa'r aelodau fod craffu wedi cael ei feirniadu cyn 2008 ac, er bod llawer o welliant wedi'i wneud rhwng 2008 a 2010, fod y system wedi dyddio gyda gormod o ddyblygu a gweithio ar wahân a'i bod yn dechrau ymddangos bod angen craffu ar faterion cymunedol a phartneriaethau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, uwch reolwyr a phartneriaid wedi cydnabod bod y system newydd yn well ffordd o weithio ac, er bod rhai aelodau'n ansicr, cynghorodd y Prif Weithredwr yn erbyn ailgyflwyno'r hen system. Roedd yn teimlo bod craffu'n symud i'r cyfeiriad cywir ac y dylai'r system newydd barhau ag adroddiad pellach yn ôl i'r cyngor yn y flwyddyn newydd i fynd i'r afael ag amheuaeth yr aelodau.

Ar y cyfan, roedd yr aelodau'n teimlo na fu'r strwythur ar waith yn ddigon hir i ganiatáu adolygiad cwbl wybodus ac, er eu bod yn derbyn bod pethau'n peri gofid a bod angen mynd i'r afael â hwy, cynigiodd y Cynghorydd Huw Jones ac eiliodd Barbara Smith y dylai'r strwythur barhau gan ddisgwyl adolygiad pellach ymhen deuddeg mis. Mynegwyd amheuaeth hefyd gan aelodau ynghylch yr argymhelliad i leihau aelodaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion cyfredol o ystyried ei bwysigrwydd yn gosod agendâu'r dyfodol ac roedd yr aelodau'n teimlo y dylai Is-gadeiryddion gael eu cynnwys yn y broses honno. Yn unol â hynny, cynigiodd y Cynghorydd Huw Jones, ac eiliodd y Cynghorydd Christine Evans, y bydd yr aelodaeth gyfredol yn cael ei chadw ac eithrio Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Ystyriodd yr Aelodau'r argymhellion a'r cynigion ac, ar ôl bwrw pleidlais -

***PENDERFYNWYD –***

*(a) bod y Cyngor yn cydnabod bod y strwythur craffu newydd am barhau yn ei ffurfwedd gyfredol ac yn gofyn am adolygiad pellach ymhen deuddeg mis;*

(b) *bod aelodaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael ei haddasu i gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob un o'r tri phwyllgor craffu ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a bod prif ffocws y Grŵp ar gydlynu'r rhaglen graffu gyda chyfarfodydd byrrach a mwy trefnus;*

(c) *bod hyfforddiant i'r aelodau ar y system graffu'n cael ei gynnwys yn y rhaglen gynefino i'r Cyngor newydd, a*

(d) *bod aelodaeth unrhyw Grŵp Adolygu Craffu yn y dyfodol yn wahanol i'r Grŵp Adolygu cyfredol.*

Yn y man hwn (1.25 p.m.) gohiriodd y cyfarfod am ginio ac ailddechreuodd y trafod am 2.00 p.m.

**9 RHYBYDD O GYNNIG**

[Dygwyd yr eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Blakeley y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried.

"Mae'r Cyngor yn sylwi gan ofidio ar y ffaith bod Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi dod i gasgliad rhagarweiniol nad oedd y Cyngor Sir wedi darparu digon o dai.

Hoffai'r Cyngor hwn atgoffa swyddogion ac aelodau'r Cabinet am raddau'r awdurdod a ddirprwywyd iddo a chydnabod mai cyfrifoldeb y Cyngor llawn yw penderfynu ar unrhyw newidiadau mewn cynlluniau ac addasiadau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Dymuna'r Cyngor hwn roi gwybod i'r Arolygydd ei bod yn rhaid i bob aelod o'r Cyngor gael gwybod am unrhyw newid mewn polisi, cynigion neu strategaeth a drafodwyd gan swyddogion, mewn cyfarfodydd esboniadol, ar ran Cyngor Sir Ddinbych, a bod y rhain yn faterion y mae'n rhaid eu cymeradwyo'n gyntaf gan Gyngor llawn."

Amlinellodd Cynghorydd Blakeley y rhesymau yn sail i'r rhybudd o gynnig. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio y sefyllfa ddiweddaraf gan ddweud bod yr Arolygydd wedi dod i gasgliadau rhagarweiniol ynghylch angen a chyflenwad tai ac wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol oddi wrth y Cyngor a oedd yn cael ei darparu. Cadarnhaodd y byddai'r aelodau'n cael gwybod am unrhyw newidiadau a wneir gan yr Arolygydd. O ran y rhybudd o gynnig, nid oedd swyddogion wedi gwneud unrhyw newidiadau nac addasiadau sylweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac ni fyddai'n gwneud hynny. Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, fod cymorth yn cael ei geisio gan yr Aelodau Cynulliad i'r sir a Rhanbarth Gogledd Cymru ar ddarpariaeth tai'r Cyngor fel y'i disgrifir yn y CDLl. Nododd y Cynghorydd Blakeley ei gytundeb i'r gwelliant ac, ar ôl bwrw pleidlais –

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, a*

(b) *ceisio cymorth i ddarpariaeth tai'r Cyngor fel y'i disgrifiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol oddi wrth yr Aelodau Cynulliad i'r sir a Rhanbarth Gogledd Cymru.*

## 10 ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor, ei adroddiad ar y cyd â'r Swyddog Monitro (SM) yn rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniad y broses ymgynghori hyd yma ac awgrymodd newidiadau yng nghyfansoddiad y Cyngor.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo ei bod yn amser cyfleus i adolygu'r cyfansoddiad a phrofi ei berthnasedd a'i ddiben a hyrwyddo prosesau tryloyw a dealltwriaeth o rolau yn y broses honno. O ran disgrifiadau rolau aelodau, gofynnodd i'r aelodau gysylltu â'u Harweinwyr Grŵp ac adrodd yn ôl i gyfarfod yr Arweinwyr Grŵp yr wythnos ganlynol. Cyfeiriwyd hefyd at y gweithdy adolygu Cyfansoddiad a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012. Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r aelodau ystyried yr amlinelliad o'r gwelliannau arfaethedig yn yr adroddiad cyn ystyried y cyfansoddiad newydd drafft yng nghyfarfod nesaf y Cyngor pan fyddai'r gwelliannau'n cael eu hystyried yn fanwl. Ymhelaethodd ar y prif feysydd lle'r oedd newidiadau wedi'u cynnig gan gynnwys y Cynllun Dirprwyo; Disgrifiad o Swyddogaethau; Cylch Gorchwyl Pwyllgorau; Rheolau Gweithdrefn Contract; Rhyddid Gwybodaeth; Disgrifiadau Rôl Aelodau; Protocol Hunanreoleiddio; Cabinet; Siarad Cyhoeddus; Protocolau, a Mesur Llywodraeth Leol Cymru. Roedd nodyn gwybodaeth i'r Cyngor am y Mesur wedi'i gylchredeg yn y cyfarfod.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r adolygiad o'r Cyfansoddiad a rhoesant sylwadau ar yr adroddiad fel a ganlyn –

- pe byddai Panel Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei sefydlu, dylai gynnwys darpariaeth i'r Panel gynghori cynghorau tref a chymuned
- dylai egluro yn nisgrifiad swydd y Cadeirydd ynghylch rôl Cadeirydd y Cyngor wrth gyfarch urddasolion sy'n ymweld
- dylai'r cynigion i gynyddu'r trothwyon ar gyfer dyfarnu contractau hefyd gynnwys adran ar y dulliau diogelu sydd ar waith i'r trefniadau hynny
- bod gofyn mecanwaith yn y cynllun dirprwyo i sicrhau eglurder ac atebolrwydd yn y broses ac i ddod â'r penderfyniadau hynny i sylw'r aelodau ynghyd ag amserlenni ar gyfer cofnodi'r penderfyniadau hynny
- dylid disgwyl bod aelodau'n mynychu cyfarfodydd ond dylai eithriad rhag mynychu'r lleiafswm statudol o gyfarfodydd gael ei gyfyngu i gyfnod o 12 mis yn unol ag eithriadau staff
- dylid cyflwyno protocol ar rôl y prif ddinesydd ac urddasolion sy'n ymweld
- bod gofyn egluro rôl yr Hyrwyddwyr
- bod angen cael hyblygrwydd o ran cyfethol unigolion ag arbenigedd penodol ar gyfer materion craffu arbennig yn unswydd
- dylid cyfeirio yn y protocol at y ffaith y dylai swyddogion gysylltu ag aelodau ward ar yr un pryd

- awgrym i ailgyflwyno arfer blaenorol y cyfarfod cyhoeddus ag Aelodau Cabinet cyn cyfarfodydd ffurfiol
- amlygwyd y diffyg cyfeirio at yr anghysondebau a nodwyd yn ystod y sesiwn hyfforddi ddiweddar ar drwyddedu tacsis ar gyfer materion mewn perthynas â'r Pwyllgor Trwyddedu
- ystyried ymhellach caniatáu siarad cyhoeddus mewn cyfarfodydd Cabinet a Chyngor Llawn er mwyn i'r cyngor agosáu at y gymuned
- bod angen mwy o wahaniaeth rhwng disgrifiadau swydd yr Arweinydd Grŵp ac Arweinydd y Grŵp Gwrthwynebol
- cyflwyno rhestr wedi'i diweddaru o'r cynrychiolwyr ar gyrff allanol i'r cyfarfod nesaf i'w hadolygu a dylid cynnwys yn y Cyfansoddiad fod angen i'r cynrychiolwyr hynny roi gwybod i'r cyngor am eu gweithgareddau
- cynnwys gwiriadau a balansau ar y penderfyniadau dirprwyedig i gael gwared ar asedau.

Ymatebodd y Swyddog Monitro i gwestiynau a sylwadau'r aelodau fel a ganlyn -

- cytunodd i ystyried y posibilrwydd o gynhyrchu protocol ar rôl y prif ddinesydd ac urddasolion sy'n ymweld
- rhoes wybod am y broses glir o ddyfarnu contractau o fewn paramedrau ariannol drwy benderfyniadau dirprwyedig yn arwain at gyhoeddi'r penderfyniad
- cadarnhaodd y byddai cyfeiriad at rôl yr Hyrwyddwyr yn cael ei gynnwys
- dywedodd fod cyfarwyddyd i'r Mesur Llywodraeth Leol yn cynnwys cyfetholiadau i bwyllgor craffu ar gyfer eitemau parhaol neu benodol
- bod y disgrifiadau swydd yn gosod disgwyliad ar aelodau i fynychu cyfarfodydd perthnasol a byddai Modern.Gov yn sicrhau bod cofnodion presenoldeb ar gael
- dylai'r protocol gynnwys cyfeiriad at y ffaith y dylai aelodau ward gael gwybod ar yr un pryd am faterion yn eu ward
- nid oedd cyfarfod cyhoeddus i Aelodau Cabinet cyn cyfarfodydd yn fater cyfansoddiadol
- byddai angen newid yn y cyfansoddiad er mwyn cael siarad cyhoeddus yn y Cabinet a /neu Gyngor Llawn
- byddai'r cyfeiriadau at y Pwyllgor Trwyddedu'n cael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw
- bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi dadlau o'r blaen ynghylch y broses ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig a'r mecanwaith i roi gwybod i'r aelodau pan fydd penderfyniadau wedi'u gwneud. Roedd y pwyllgor hwnnw hefyd wedi trafod mater cynrychiolwyr ar gyrff allanol a oedd wedi sbarduno ymarfer lle bu gofyn i gyrff allanol gadarnhau nifer y cynrychiolwyr ac ym mha rinwedd yr oeddent yn ofynnol. Byddai cyfarwyddyd ar gyrff allanol yn cael ei ddarparu ynghyd â'r mecanwaith adrodd yn ôl gan ddibynnu ar rôl y cynrychiolydd.

Trafododd yr Aelodau hefyd fanteision neu anfanteision cynhyrchu copïau papur ac electronig o'r Cyfansoddiad gyda'r Cynghorydd Colin Hughes yn gofyn am gopi electronig a'r Cynghorydd John Bellis yn gofyn am gopi papur i sicrhau y gellid gwneud '*track changes*'. Dywedodd y Swyddog Monitro fod gwaith yn parhau i

sicrhau bod y fersiwn electronig o'r Cyfansoddiad yn haws i'w defnyddio a'i bod yn haws dod o hyd i'ch ffordd o'i hamgylch.

Cynigiodd y Cynghorydd Meirick Davies fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cyfansoddiad drafft newydd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a –

***PHENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor –*

*(a) yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth oddi wrth aelodau yn y gweithdy adolygu Cyfansoddiad a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012, ac*

*(b) yn ystyried y trosolwg arfaethedig o newidiadau yn y Cyfansoddiad ac yn argymell bod y Swyddog Monitro'n mynd yn ei flaen i ddrafftio'r newidiadau er mwyn i'r aelodau gael gweld y drafft llawn i'w fabwysiadu mewn cyfarfod Cyngor arbennig arfaethedig ym mis Mawrth 2012.*

**11 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2012/13 A DANGOSYDDION DARBODUS 2012 / 13 I 2014 / 15**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn disgrifio'r ffordd y byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyca am y flwyddyn i ddod ac yn ceisio cymeradwyaeth i'r polisïau yr oedd y swyddogaeth Rheoli Trysorlys yn gweithredu ynddynt. Bu'n tywys yr aelodau drwy'r adroddiad ac yn tynnu sylw'n arbennig i'r –

- tybiaethau cyllideb refeniw 2012/13 y byddai'r Cyngor yn gwneud £3.65m o fenthyca darbodus newydd i ariannu gwariant cyfalaf ar Briffyrdd a £4m i gefnogi prosiectau adfywio ac ysgolion
- tybiaethau'r Cynllun Busnes Stoc Dai y byddai benthyca darbodus yn cael ei wneud ac y byddai'n cael ei gyllido drwy'r hyn a oedd yn gywerth â chynnydd mewn rhenti tai wythnosol
- y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys gan gynnwys gwybodaeth gefndir, polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys
- y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a Strategaeth Buddsoddiad 2012/13 i 2014/15 gan gynnwys y Datganiad Darparu Lleiafswm Refeniw a'r atodiadau cysylltiedig.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Jones am fanylion pellach y swm a gafodd y Cyngor drwy fenthyca darbodus o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, am ei fod yn teimlo y byddai'n arbennig o ddefnyddiol i'r garfan newydd o gynghorwyr i amlygu benthyca'r Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod cyfanswm o ryw £136m wedi'i fenthyg a hwnnw'n daladwy dros amserlenni amrywiol hyd at 50 mlynedd gyda mwyafrif y benthyca i aeddfedu ymhell yn y dyfodol. Dywedodd y gallai ffigurau benthyca diweddar gael eu darparu'n hawdd ond, am fod rhai benthyciadau'n dyddio'n ôl i hen Gyngor Sir Clwyd, hwyrach na fyddai mor hawdd cael y manylion hynny a gall fod yn anodd cymharu'n union ag awdurdodau eraill. Sicrhawyd yr Aelodau fod y Cyngor ar hyn o bryd ymhell o fewn ei gyfyngiadau benthyca.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cymeradwyo –*

*(a) y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ar gyfer 2012/13;*

*(b) y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2012/13 fel y'i disgrifir yn Atodiad A o'r adroddiad;*

*(c) gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2012/13, 2013/14 a 2014/15 fel y'u disgrifir yn Atodiad B o'r adroddiad;*

*(d) y Datganiad Darparu Lleiafswm Refeniw fel y'i dangosir yn Adran 6 o Atodiad A o'r adroddiad, a*

*(e) defnyddio Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol fel y'u disgrifir yn Atodiadau D ac E o'r adroddiad.*

**12 AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU AR GYFER 2012/13**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratig adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2012/13 fel y'i disgrifir yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Soniodd hefyd am y gofynion a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Democratig a Phwyllgor Archwilio a chyfarwyddyd am amseru cyfarfodydd.

Bu'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn hyrwyddo cyflwyno cyfarfodydd gyda'r nos er mwyn denu mwy o ymgeiswyr etholiad a chynigiodd gynnwys rhai cyfarfodydd gyda'r nos yn yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2012/13. Er ei fod yn cefnogi bod angen cyfarfodydd gyda'r nos, roedd y Cynghorydd Colin Hughes yn teimlo mai penderfyniad i'r Cyngor newydd oedd hwnnw ac nid i'r weinyddiaeth gyfredol. Wrth ystyried y cynnig, roedd yr aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig i'r darpar ymgeiswyr wybod faint o waith sydd dan sylw ac awgrymwyd na fyddai cyfarfodydd gyda'r nos yn addas i bawb efallai. Cyfeiriwyd hefyd at y goblygiadau ar staff ac adnoddau petai cyfarfodydd gyda'r nos yn cael eu cyflwyno ac ar y cyfan teimlwyd y dylai'r Cyngor newydd ystyried y peth ymhellach.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r amserlen cyfarfodydd ar gyfer 2012/13 fel y'i disgrifiwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**13 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig Flaenraglen Waith y Cyngor a dywedodd y byddai adroddiad ar Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf. Cyfeiriodd at bosibilrwydd disodli'r Cyngor Anffurfiol â chyfarfod ffurfiol ym mis Mawrth a allai olygu na fydd angen i'r Cyngor gyfarfod ar 17 Ebrill 2012.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi Blaenraglen Waith y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Council Chamber, County Hall, Ruthin LL15 1YN, Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, John Bellis, June Cahill, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Pauline Dobb, Michael Eckersley, Christine Evans, Gwilym Evans, Bobby Feeley, Sharon Frobisher, Ian Gunning, Diana Hannam, Colin Hughes, Huw Jones, Morfudd Jones, Richard Jones, Gwyneth Kensler, Paul Marfleet, Lucy Morris, Peter Owen, Dewi Owens, Allan Pennington, David Thomas, Selwyn Thomas, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Eryl Williams a Jane Yorke

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforedig: Dysgu a Chymunedau (HW) and Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Dirprwy Swyddog Monitro / Cyfreithiwr (LJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

**CYHOEDDIADAU**

Bu'r Cadeirydd yn llongyfarch –

- Rheolwr Ymgysylltu ac Ymgynghori'r Cyngor am gael Gradd Meistr gyda rhagoriaeth mewn Gweinyddu Busnes
- Adran Dysgu Gydol Oes y Cyngor am yr Adroddiad Arolygiad Estyn diweddaraf am wasanaethau plant a phobl ifanc ac addysg y sir, a oedd yn disgrifio'r awdurdod fel un da gyda sgiliau arwain rhagorol, a bu'n talu teyrnged i ymroddiad a gwaith yr aelodau a'r swyddogion
- y pedwar ar hugain o ddisgyblion chweched dosbarth a oedd wedi ennill tridiau o ymweliad â Senedd Ewrop yn rhan o gystadleuaeth traethawd a drefnwyd gan Europe Direct Llangollen. Soniwyd yn arbennig am Alice Rowland o Ysgol Brynhyfryd a enillodd y safle cyntaf ac wythnos o brentisiaeth yn swyddfa Jill Evans, ASE i Gymru
- Llanelwy am gael statws Dinas yn rhan o ddathliadau Jiwbilî Diemwnt y Frenhines, a
- Chôr Ysgol Dinas Brân am ei berfformiad rhagorol yn canu yn rhan o ddathliadau Rygbi'r Chwe Gwlad.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Hugh Evans, Neville Hughes, Rhiannon Hughes, Rhys Hughes, Glyn Jones, Barbara Smith a David Smith

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Ian Armstrong fuddiant personol ym mhrosiectau Harbwr y Foryd a oedd yn rhan o Gynllun Cyfalaf 2011/12 – 2014/15 yn eitem 8 ar yr agenda.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymrwymiadau dinesig a fodlonodd ar ran y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 a 20 Mawrth 2012 (cylchredwyd y dyddiadur yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD** nodi'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cadeirydd ym mis Mawrth 2012.*

## 5 ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) ei adroddiad gyda'r Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr (DSM/C) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig yng nghyfansoddiad y Cyngor er mwyn moderneiddio'r fersiwn gyfredol a'i gwneud yn fwy tryloyw. Rhyddhawyd copi o'r cyfansoddiad wedi'i ddiwygio i'r aelodau ar wahân a oedd yn amlygu'r newidiadau arfaethedig er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Ymddiheurodd y SM nad oedd y cyfansoddiad drafft ar gael tan yn ddiweddar, oherwydd anawsterau argraffu.

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi ystyried amlinelliad y gwelliannau arfaethedig yn eu cyfarfod Cyngor Sir diwethaf gyda'r bwriad o fabwysiadu'r drafft llawn yn y cyfarfod arbennig hwn. Cyfeiriwyd at y broses ymgynghori helaeth ag aelodau a swyddogion yn arwain at y drafft terfynol i'w gymeradwyo. Gofynnodd y SM i'r aelodau ystyried y gwelliannau arfaethedig fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a bu yntau a'r DSM/C yn tywys yr aelodau drwy'r cyfansoddiad drafft ac yn ymhelaethu ar y meysydd hynny lle cynigiwyd newidiadau gan gynnwys y Cod Ymddygiad; Disgrifiadau Swydd Aelodau; Hyrwyddwyr; Cabinet; Cynllunio; Pwyllgor Safonau; Erthygl 12 – Swyddogion Statudol; Erthygl 13 – Gwneud Penderfyniadau; Llofnodi a Selio Dogfennau; Adolygiad Parhaus o'r Cyfansoddiad; Disgrifiad o Swyddogaethau; Cylch Gorchwyl Pwyllgorau; Craffu; Rheolau Gweithdrefn Contract; Gweithdrefnau Gwrandawiad Pwyllgor Safonau; Protocolau; Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, a Rhyddid Gwybodaeth.

Roedd yr Aelodau'n croesawu'r adolygiad o'r Cyfansoddiad ac yn talu teyrnged i waith y swyddogion yn hynny o beth. Wrth ystyried y ddogfen drafft, amlygwyd nifer o wallau argraffyddol a materion fformadu ynghyd â nifer o anghysondebau yr oedd gofyn eu cywiro a bod angen rhestr o fyrfoddau. Wrth nodi'r pethau hynny, cynghorodd y SM y byddai'r drafft cyfan yn cael ei archwilio'n drwyadl cyn cael ei

gyhoeddi. Bu’r Aelodau hefyd yn ceisio eglurhad am nifer o bethau yr oeddent yn teimlo y dylid eu cynnwys yn y cyfansoddiad a chadarnhaodd y SM y cyfeiriwyd at y pethau hynny mewn gwahanol rannau o’r cyfansoddiad neu’r tu allan i’r cyfansoddiad fel sy’n briodol fel a ganlyn –

- roedd y rheolau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi ar y Cabinet wedi’u nodi yn y cyfansoddiad
- roedd y Cyngor yn cadw rhestr o swyddi sy’n wleidyddol gyfyngedig nad oedd angen eu cynnwys yn y cyfansoddiad
- roedd yr egwyddorion yng nghod ymddygiad yr aelodau yn cynnwys dangos parch ac ystyriaeth at eraill a byddai hefyd yn cynnwys teyrngarwch gwleidyddol
- cyfeiriwyd at rôl a chyfrifoldebau’r arweinydd yn y cyfansoddiad ynghyd â rhestr o ddirprwyaethau yn nodi pwerau’r arweinydd. Amlygwyd y mecanwaith i’r arweinydd ymdrin â materion brys ynghyd â’r dulliau diogelu sydd yn eu lle i alw i mewn penderfyniadau a wneir gan aelodau’r Cabinet
- nid oedd y cynllun lwfansau wedi’i adolygu ond byddai angen i’r Cyngor newydd ei ystyried ar ôl cael adroddiad y Panel Tâl am gyflogau’r dyfodol i’r aelodau
- gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer adroddiadau blynyddol a luniwyd gan aelodau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a byddai’n cael ei hadlewyrchu yn y cyfansoddiad pan fyddai’n gyfraith
- roedd cyfrifoldebau am swyddogaethau dewis lleol wedi’u nodi gan ddisgrifio ble roedd y Cyngor wedi penderfynu’n flaenorol ar swyddogaethau arbennig i’w cyflawni gan y Cyngor neu’r Cabinet
- ni chodwyd dirprwy aelodau mewn cyfarfodydd fel mater i’w adolygu ond gellid ei ailystyried os dymunai’r Cyngor a byddai’n golygu ymgynghori ag aelodau a grwpiau
- roedd y rhestr o gynrychiolwyr ar gyrff allanol yn cael ei hadolygu ar y pryd a gellid ei rhyddhau i aelodau ar ôl ei chwblhau; a
- rhoddwyd gwybod am y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol newydd ar gyfer penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011.

Cytunodd y SM hefyd i holi’r Adran Gynllunio o ran ymgorffori unrhyw newidiadau yn y Protocol Cynllunio a fabwysiadwyd yn 2005 ac i ailystyried y ddeddfwriaeth a restrwyd yn yr ymgynghoriad yn ymdrin â dirprwyaethau i’r Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddio i sicrhau ei bod wedi’i diweddaru.

Wrth ystyried y cyfansoddiad drafft, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i roi sylwadau a gofyn cwestiynau i’r SM a’r DSM/C. Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn cynnwys –

- pwysigrwydd Hyrwyddwyr a’r angen am fwy o eglurder ynghylch eu rôl a’u cyfrifoldebau ac yn y broses benodi. Bu’r Cynghorydd Ian Gunning hefyd yn hyrwyddo Hyrwyddwr i bobl ifanc. Cytunwyd i ailystyried mater Hyrwyddwyr yn gynnar yn nhymor y Cyngor newydd
- nodwyd bod presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn fater allweddol a chytunwyd i sôn yn swydd ddisgrifiadau’r aelodau y byddai cofnodion presenoldeb yn cael eu cyhoeddi
- cyfeiriodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler at yr hyfforddiant trwyddedu diweddar a cheisiodd sicrhad fod y materion a godwyd o ran swyddogaethau

trwyddedu wedi cael sylw. Cadarnhaodd y DSM/C y gellid dirprwyo i'r Pwyllgor Trwyddedu faterion sy'n berthnasol i ddarparu dewis lleol

- mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd June Cahill, cyfeiriodd y SM at y broses statudol ar gyfer ceisiadau trwyddedu a chytunodd i ganfod a oedd unrhyw gyfle i ddiwygio'r gweithdrefnau er mwyn ymgysylltu ymhellach â buddgyfranogwyr a'u cynnwys yn fwy yn y broses
- yr angen i gynnwys hyfforddiant gorfodol i'r Pwyllgor Trwyddedu yn unol â'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd natur led-farnwrol y pwyllgorau hynny
- yr angen i gynnwys hyfforddiant gorfodol i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am faterion ariannol o ystyried eu cyfrifoldebau am Reoli'r Trysorlys a Chyfrifon Blynyddol
- pwysigrwydd hyfforddi'r aelodau am Ddiogelu Data
- dylai'r protocol ar gyfer cysylltu ag aelodau gynnwys mecanwaith er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau lleol am ymatebion i faterion a godwyd gan gynghorau tref/cymuned yn eu hardal ac i sicrhau ymateb amserol i faterion a godir gan gynghorwyr sir
- fod angen i'r cyfansoddiad fod ar gael a bod yn haws ei ddarllen ar-lein. Cadarnhaodd y SM fod gwaith yn parhau gyda TGCh yn hynny o beth
- mewn ymateb i bryderon, bu'r DSM/C yn rhoi gwybod am y gofyniad i gyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig a chytunodd i newid y geiriad yn y cyfansoddiad i sicrhau bod y gofyniad yn glir ac na allai'r swyddogion weithredu nes bod y broses wedi'i chwblhau. Cytunodd hefyd i godi mater hygyrchedd penderfyniadau a gyhoeddir gyda'r Gwasanaethau Democratig i fynd i'r afael ag unrhyw wendid, a
- thrafodwyd y broses dendro a chadarnhaodd y DSM/C fod y Tîm Caffael yn archwilio posibilrwydd cynnwys buddion cymunedol yn rhan o fanylebau tendr a fyddai o fudd i'r economi leol.

Cydnabu'r Aelodau hefyd mor bwysig yw hyfforddiant Cod Ymddygiad a chytunasant y byddai hyfforddiant yn cael ei wneud yn orfodol unwaith ym mhob cyfnod swydd a byddai cyrsiau gloywi hefyd ar gael i'r aelodau ynghyd â'r cyfle i wneud e-ddysgu/dysgu o bell ar y pwnc. Codwyd hefyd fod angen gwneud darpariaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn gynnar yng ngweinyddiaeth newydd y Cyngor. Awgrymwyd hefyd y dylai aelodau sy'n torri'r Cod gael hyfforddiant pellach. Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, bu'r SM yn ymhelaethu ar y broses ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri'r Cod ynghyd â rôl y Pwyllgor Safonau a'r cosbau a osodir. Cadarnhaodd fod hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i drefnu'n gynnar yn rhaglen hyfforddi aelodau newydd ac y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu hefyd i Gynghorau Tref a Chymuned yn yr ychydig fisoedd cyntaf, gan roi digonedd o gyfleoedd i aelodau fynychu, a bod cwrs gloywi wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2012. Byddai'r Pwyllgor Safonau'n monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant Cod Ymddygiad.

Manteisiodd y SM ar y cyfle i ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniad at y broses adolygu ac i'r DSM/C a'i gynorthwyydd personol am eu gwaith caled yn llunio'r ddogfen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor -*

(a) *yn cymeradwyo hyfforddiant gorfodol, unwaith ym mhob cyfnod swydd, i bob aelod ar y Cod Ymddygiad ynghyd â darparu hyfforddiant gloywi bob hyn a hyn, yn cymeradwyo'r terfyn o £25 i'r gofyniad i gofrestru rhoddion a chroeso, ac yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig i adlewyrchu'r gofynion hynny;*

(b) *yn mabwysiadu'r Protocolau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.15 o'r adroddiad; ac*

(c) *yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig yn y Cyfansoddiad fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ac fel y'u disgrifiwyd yn y Cyfansoddiad drafft.*

## 6 ADOLYGIAD O'R GWASANAETH CRWNER

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) ei adroddiad yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo dewisiadau mewn perthynas â darparu gwasanaeth Crwner a chymorth gweinyddu i awdurdodaethau Gogledd-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Gogledd Cymru. Roedd crynodeb o fanteision ac anfanteision pob dewis (Atodiad 1) ynghyd â chymhariaeth o gostau'r pedwar dewis (Atodiad 2) ynghlwm wrth y prif adroddiad.

Cafodd yr Aelodau ychydig o wybodaeth gefndir i'r system crwneriaid a'r sefyllfa gyfredol yng Ngogledd Cymru, yn arbennig i'r awdurdodaethau crwneriaid a oedd yn destun yr adolygiad, Gogledd-ddwyrain Cymru (a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Chanolbarth Gogledd Cymru (a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych) o ran baich achosion, darparu'r gyllideb a chymorth gweinyddol. Bu'r SM yn ymhelaethu ar y pedwar prif ddewis a nodwyd o ran darparu gwasanaethau'r dyfodol fel a ganlyn –

Dewis 1 – Cynnal y trefniant cyfredol
Dewis 2 – Cadw dwy awdurdodaeth ond cyfuno trefniadau gweinyddol
Dewis 3 – Cyfuno'r ddwy awdurdodaeth a phenodi un Crwner amser llawn
Dewis 4 – Cyfuno'r ddwy awdurdodaeth a phenodi un Crwner rhan-amser

Roedd swyddogion o'r ddau Awdurdod Arwain cyfredol wedi argymell Dewis 3 a hwn hefyd oedd hoff ddewis y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymdeithas y Crwneriaid. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd wedi cadarnhau ei fod yn derbyn y dewis hwnnw. Pe byddai Dewis 3 yn cael ei fabwysiadu, teimlwyd mai Sir Ddinbych a fyddai yn y sefyllfa orau i wneud gwaith yr Awdurdod Arwain o ystyried ei lleoliad canolog a'i gallu i reoli. Prif anfantais Dewis 3 oedd posibilrwydd amser teithio cynyddol i deuluoedd ddod i gwestau os na fyddai ond un lleoliad llys yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, gellid goresgyn hynny drwy ofyn bod y crwner yn teithio i gynnal cwestau mewn gwahanol fannau.

Wrth ystyried yr adroddiad a'r dewisiadau, bu'r Cynghorydd Ian Gunning yn atseinio ymateb Heddlu Gogledd Cymru i'r ymgynghoriad gan gadarnhau bod Awdurdod yr Heddlu wedi mwynhau perthynas dda â'r crwneriaid am lawer blwyddyn a'i fod yn ceisio cynnal y berthynas gadarnhaol honno. Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Marfleet at e-bost a gafwyd gan rai aelodau'r noson flaenorol oddi wrth breswylydd yn Rhuthun a oedd wedi codi mater cyfieithu yn y gwasanaeth Crwner y gall fod angen ei ystyried ymhellach. Cyfeiriodd hefyd at ffi'r Cyfarwyddwr Angladdau am

gasglu cyrff. Bu'r Cynghorwyr Cefyn Williams ac Allan Pennington yn sôn am eu profiad personol eu hunain o'r gwasanaeth Crwner a chodwyd pryderon ynghylch tôn gohebiaeth arbennig i bobl mewn profedigaeth ddiweddar; y diffyg darpariaeth i gynnal cwestau drwy gyfrwng y Gymraeg a dogfennaeth Gymraeg, ynghyd â'r oedi yn y broses yn gwaethygu'r galar a deimlid gan deuluoedd. Roedd unrhyw ddatblygiad ar y materion hynny a gwelliannau yn y gwasanaeth Crwner o ganlyniad i'r adolygiad i'w croesawu. Bu'r SM yn rhoi gwybod am elfennau cyfreithiol cwblhau'r dystysgrif marwolaeth ac anawsterau dilynol yn llunio dogfennaeth ddwyieithog yn hynny o beth. Fodd bynnag, byddai darpariaeth Gymraeg mewn cwestau a llunio dogfennaeth Gymraeg gan y gwasanaeth Crwner yn cael eu hadolygu pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Ychwanegodd fod y ffioedd a dalir i Gyfarwyddwyr Angladdau gasglu cyrff hefyd yn destun adolygiad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynghylch darpariaeth Gymraeg yn y gwasanaeth, bu'r Cynghorydd Meirick Davies yn hyrwyddo bod y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei wneud yn faen prawf hanfodol ar gyfer swydd y Crwner. Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn cefnogi'r farn honno. Dywedodd y SM fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi gofynion ar gyfer y swydd a, phe byddai ymgeisydd di-Gymraeg yn cael ei benodi, byddai angen rhoi mesurau ar waith i sicrhau y gellid ymdrin â chwestau a gwaith papur drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth ystyried yr argymhellion, cynigiodd y Cynghorydd Meirick Davies gyfeirio'n benodol at Ddewis 3 yn 3.2 o'r argymhellion er eglurder. Ar ôl bwrw pleidlais –

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) cyfuno awdurdodaethau cyfredol Gogledd-ddwyrain Cymru a Chanolbarth Gogledd Cymru i ymdrin â phedair ardal awdurdod lleol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam;*

*(b) penodi Crwner amser llawn i ymdrin â'r awdurdodaethau cyfunol fel y disgrifiwyd yn Newis 3 a nodwyd yn yr adroddiad;*

*(c) dynodi Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Arwain y Crwner ac i ddarparu swyddogaethau cymorth gweinyddol i'r gwasanaeth, a*

*(d) dosrannu costau ar sail cymhareb poblogaeth.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai'n debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.*

**7 CYNLLUN CYFALAF 2011 / 12 - 2014 / 15**

[Dygwyd yr eitem hon ymlaen ar yr agenda gyda chaniatâd y Cadeirydd]

Datganodd y Cynghorydd Ian Armstrong fuddiant personol ym mhrosiectau Harbwr y Foryd sydd wedi'u cynnwys yn yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Aelod Arwain dros Gyllid ac Effeithlonrwydd ei adroddiad cyfrinachol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i roi gwybod y diweddaraf i'r Cyngor am elfen 2011/12 o'r Cynllun Cyfalaf ac i ofyn iddo gymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2011/12 a 2014/15. Bu'r Aelod Arwain yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am yr amrywiaeth gyfredol o brosiectau mawr a phrosiectau ychwanegol a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ar 20 Chwefror a 20 Mawrth yn y drefn honno, derbyniadau cyfalaf a dangosyddion darbodus. Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi aros y tu mewn i'w derfynau benthyca drwy'r amser.

Er ei fod yn croesawu'r prosiectau gwella i'r Rhyl, amlygodd y Cynghorydd Selwyn Thomas y problemau tagfeydd traffig i ymwelwyr â'r ardal a bod angen ffordd liniaru i fynd i'r afael â hwy. Roedd y Cynghorwyr Diana Hannam a Jeanette Chamberlain Jones yn cytuno â'r farn honno a phwysleisiasant fod angen mynd i'r afael â'r broblem ar frys i sicrhau na fyddai ymwelwyr yn cael eu hatal rhag ymweld â'r dref. Bu'r Cynghorydd Chamberlain Jones hefyd yn gofyn am sicrhad bod y mentrau fel prosiect Harbwr y Foryd wedi ystyried mynediad i'r anabl a bod y gwaith amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gwella ardal y promenâd. Bu'r Cynghorydd Meirick Davies hefyd yn amlygu bod angen ffordd liniaru rhwng Llanelwy a Threfnant. O ran caffael eiddo ar y promenâd, cododd y Cynghorydd Davies bryderon am ddymchweliad tebygol yr adeilad ac amlygodd fod angen sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gadw'r eiddo o ystyried ei fod mewn ardal gadwraeth. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle hefyd i godi cwestiynau am brosiectau unigol eraill a ddisgrifiwyd yn y Cynllun Cyfalaf ynghyd â goblygiadau cost a darpariaeth ar gyfer llithriad.

Mewn ymateb i gwestiynau/sylwadau'r aelodau, bu'r Aelod Arwain a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau –

- yn cynghori bod unrhyw ofyniad am ffordd liniaru i'r Rhyl y tu hwnt i gylch gwaith yr adroddiad dan sylw
- yn cytuno i archwilio a oedd asesiad o risg llifogydd yn ofynnol ar ôl gwaith Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl ac unrhyw gostau cysylltiedig
- yn cadarnhau y byddai prosiectau'n cael eu cwblhau gyda mesurau anabledd llawn yn eu lle mewn cydymffurfiad â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- yn ymhelaethu ar Gam 3 o waith Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl a'r cynigion am waith amddiffyn rhag llifogydd a chostau cysylltiedig
- yn cadarnhau, petai prosiectau'n cael eu gohirio'r tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, y byddai'r cyllid a ddyrannwyd yn cael ei ddwyn drosodd i Gynllun Cyfalaf y flwyddyn nesaf a bod rhywfaint o gronfa wrth gefn wedi'i chynnwys yn barod
- yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am debygolrwydd dymchwel eiddo ar Bromenâd y Rhyl ac ailddatblygu'r safle yn y dyfodol
- yn cytuno i roi manylion pellach ynghylch prosiect Canolfan Grefft Newydd Rhuthun

- yn cynghori bod y Tŵr Awyr yn aros ar gau gyda dewisiadau'r dyfodol yn cael eu harchwilio gan Dîm y Rhyl yn Symud Ymlaen
- yn rhoi gwybod y diweddaraf am sefyllfa ddiweddaraf y cynigion am lwybr beicio rhwng Rhuthun a Dinbych
- yn cynghori bod arian cyfatebol i Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf a oedd yn annhebygol o gael ei wario yn 2012/13.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor –*

*(a) yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf am elfen 2011/12 o'r Cynllun Cyfalaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr, ac*

*(b) yn cymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf fel y'i dangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

O'r man hwn, nid oedd cworwm gan y cyfarfod ac aeth rhagddo'n anffurfiol.

**8 BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig Flaenraglen Waith y Cyngor gan gynghori y gallai cyfarfod y Cyngor a drefnwyd ar gyfer 17 Ebrill 2012 gael ei ganslo oherwydd diffyg busnes.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd Eryl Williams, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig nad oedd yn gwybod a oedd cymorth wedi'i geisio gan Aelodau Cynulliad ynghylch darpariaeth tai yn y Cynllun Datblygu Lleol fel y gofynnwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Sir.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi Blaenraglen Waith y Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 p.m.

**Adroddiad i'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **15 Mai 2012**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Teitl:** **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

---

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn sôn am y newidiadau sydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Cyngor fod â Phwyllgor Archwilio a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i fabwysiadu dull newydd o ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 30 Ebrill 2012 gan ddisgwyl y byddan nhw'n cael eu gweithredu yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Cynghorau. Bydd yn rhaid adlewyrchu'r gofynion hyn yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Archwilio, yn penderfynu ar enw, maint a chyfansoddiad y Pwyllgor ac yn mabwysiadu'r Cylch Gwaith a atodir fel Atodiad 1 i'r Pwyllgor hwnnw.

3.2 Bod y Cyngor yn penderfynu bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n cael eu penodi gan y Cyngor i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

3.3 Bod y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn penderfynu ar ei faint a'i gyfansoddiad ac yn mabwysiadu'r Cylch Gwaith a atodir fel Atodiad 3.

3.4 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r egwyddorion i'w cymhwyso wrth benodi Cadeiryddion Craffu fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 4.26 i 4.30 yr adroddiad hwn.

3.5 Bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r diwygiadau a ddisgwylir gan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.1 i 3.4 uchod.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Y Pwyllgor Archwilio

4.1 Mae Adran 81 y Mesur yn disgwyl bod yr awdurdod lleol yn penodi pwyllgor "Pwyllgor Archwilio" i:

a) Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod.

b) Lunio adroddiadau ac argymhellion am faterion ariannol yr awdurdod.

c) Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a rheolaeth gorfforaethol yr awdurdod.

d) Lunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y trefniadau hynny.

e) Oruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.

f) Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod.

4.2 Hefyd, gall yr awdurdod gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn addas i'w hymarfer gan y Pwyllgor.

4.3 Mae Adran 82 yn dweud bod yn rhaid i'r Cyngor benodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

4.4 Nid yw'r Mesur yn darnodi'r nifer o aelodau sy'n rhaid eu cael ar y Pwyllgor Archwilio ond mae'n gwneud y darpariaethau canlynol:

a) Mae'n rhaid i ddwy ran o dair aelodaeth y Pwyllgor fod yn aelodau'r awdurdod.

b) Rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor fod yn aelod lleyg h.y. yn berson annibynnol nad sy'n aelod o'r awdurdod.

c) Un aelod o'r Pwyllgor yn unig all fod yn aelod Cabinet ac ni all yr aelod hwnnw fod yr Arweinydd.

4.5 Nid yw'n orfodol cael aelod Cabinet ar y Pwyllgor Archwilio. Mae hyn yn ddewisol.

4.6 Mae'r canllawiau statudol drafft yn awgrymu nad oes gofyn am gydbwysedd gwleidyddol ond na ddylai aelodaeth y Pwyllgor fod yn rhai llai hael i grwpiau anweithredol nag a fyddai petai rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn bodoli. Nid yw'r Mesur ei hun yn dweud hyn. Y rheol gyffredinol mewn deddf llywodraeth leol yw y dylai pwyllgor ffurfiol i'r Cyngor fod â chydbwysedd gwleidyddol. Felly, argymhellir bod gan y Pwyllgor gydbwysedd gwleidyddol.

4.7 Y Pwyllgor ei hun sy'n ethol Cadeirydd. Gall y Cadeirydd fod naill ai'n aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond ni all fod yn aelod o grŵp sy'n cael ei gynrychioli yn y Cabinet. Os bydd pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn y Cabinet h.y. nid oes unrhyw wrthblaid, yna gall y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp sy'n cael ei gynrychioli yn y Cabinet ond ni all fod yn aelod o'r Cabinet.

4.8 Gall pob aelod o'r Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys yr aelod lleyg, bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Pwyllgor.

4.9 Gall y Pwyllgor ofyn i Aelodau a Swyddogion yr awdurdod fynychu cyn y Pwyllgor i ateb cwestiynau a gall wahodd pobl eraill i fynychu cyfarfodydd. Rhaid i Aelod neu Swyddog yr awdurdod gydymffurfio gydag unrhyw gais i fynychu ond nid oes yn rhaid iddo/iddi ateb unrhyw gwestiwn y gallai wrthod ei ateb mewn llys.

4.10 Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn calendr a hefyd rhaid iddo gyfarfod os bydd y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Pwyllgor gyfarfod neu bod o leiaf un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor yn gofyn am gyfarfod. Gall y Pwyllgor Archwilio ei hun benderfynu cyfarfod yn fwy aml na'r gofynion hyn.

4.11 Mae'r Mesur yn caniatau bod unrhyw weithredu gan y Pwyllgor Archwilio yn annilys os na fydd ei gyfansoddiad yn unol â'r Mesur. Mae hyn yn golygu felly na all y Pwyllgor Archwilio weithredu hyd nes i aelod lleyg annibynnol gael ei benodi. Bydd yn rhaid i'r Cyngor felly gytuno i unrhyw broses benodi. Mae'r canllawiau statudol am recriwtio aelodau lleyg yn dweud y dylai'r aelod fod yn annibynnol o'r Cyngor heb unrhyw gysylltiad busnes gyda'r Cyngor, er y byddai gwybod sut mae llywodraeth leol yn gweithio yn fantais bendant. Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio osgoi penodi pobl y mae eu teyrngarwch gwleidyddol yn hysbys iawn.

4.12 Mae'r canllawiau'n argymell bod cynghorau'n dilyn ymarfer recriwtio cyhoeddus yn debyg i'r un a ddefnyddir i benodi aelodau Pwyllgorau Sefydlog i recriwtio aelodau lleyg. Bydd unrhyw aelod lleyg gyda hawl pleidleisio yn atebol i ddarpariaethau Cod Ymddygiad Aelodau. Argymhellir bod y Cyngor yn dirprwyo i'r aelodau hynny y tasgau o gyfweld ymgeiswyr ar gyfer bod yn aelod lleyg annibynnol gan mai'r Cyngor sydd i benodi aelodau i'r Pwyllgor. Mae hefyd yn mynnu eu bod yn argymell i'r cyngor benodi eu dewis o ymgeisydd.

4.13 Bydd gan aelod lleyg annibynnol hawl i lwfans am fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth dros Gymru yn cynnig y ffioedd gorfodol canlynol:

| | |
|---|---|
| Aelod cyffredin o'r Pwyllgor Archwilio | £198 y dydd (£99 am ½ diwrnod) |
| Cadeirydd Cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio | £256 y dydd (£128 am ½ diwrnod) |

Mae'r taliadau hyn wedi'u cyfyngu gyda mwyafswm ffi sy'n cyfateb i ddeng niwrnod llawn y flwyddyn i bob Pwyllgor. Mae'r taliadau am amser cyfarfod yn unig ond maen nhw hefyd yn cynnwys amser a dreuliwyd ar baratoi a theithio. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel un hyd at bedair awr a chyfarfod diwrnod llawn fel un dros bedair awr.

4.14 Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol sy'n gweithredu swyddogaethau'n debyg i'r rhai a ddisgwylir gan y Mesur ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.

4.15 Mae Cylch Gwaith presennol y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4.16 Nid oes unrhyw ofyn am alw'r Pwyllgor yn 'Pwyllgor Archwilio'. Yr Aelodau sydd i benderfynu a ydyn nhw am i'r Pwyllgor gael ei alw'n Bwyllgor Archwilio neu a ydyn nhw'n dymuno parhau gyda'r Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol a'i ddynodi fel y Pwyllgor Archwilio i bwrpas y Mesur.

4.17 Mae'r Cylch Gwaith diwygiedig drafft wedi'i atodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 2.

4.18 Bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu ar aelodaeth y Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae chwech Aelod ar y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol i gynnwys Is-gadeirydd y Cyngor. Mae'r Mesur yn mynnu bod o leiaf un aelod lleyg annibynnol ar y Pwyllgor a gall un fod yn aelod Cabinet. Mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu ar aelodaeth y Pwyllgor.

**Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

4.19 Mae Adran 11 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn disgwyl bod y Cyngor yn penodi pwyllgor i:

a) weithredu swyddogaeth yr awdurdod lleol yn unol ag Adran 8(1)(a) i ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

b) adolygu digonolrwydd darpariaeth yr awdurdod o staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i

c) lunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod am ddarpariaethau o'r fath.

4.20 Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ddylai benderfynu sut i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

4.21 Rhaid i'r Cyngor Llawn benodi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ni ddylid cael unrhyw aelodau cyfetholedig. Ni ddylid cael mwy nag un aelod o'r Cabinet ac ni all hwnnw/honno fod yr Arweinydd.

4.22 Rhaid bod cydbwysedd gwleidyddol yn y Pwyllgor. Rhaid i'r Cyngor Llawn hefyd benodi Cadeirydd y Pwyllgor ac ni all hwnnw/ honno fod yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cabinet heblaw nad oes unrhyw wrthblaid. Os felly, gellir penodi unrhyw aelod o'r Pwyllgor fel Cadeirydd ond ni all yr aelod hwnnw/ honno fod yn aelod o'r Cabinet.

4.23 Rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Hefyd, gall gyfarfod yn amlach os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu hynny neu bod o leiaf trydedd ran o aelodau'r Pwyllgor yn gofyn am gyfarfod. Nid oes unrhyw derfyn i'r nifer o gyfarfodydd y bydd y Pwyllgor yn eu cynnal.

4.24 Rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gael ei ystyried o fewn tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor Llawn ystyried o fewn tri mis unrhyw adroddiad a gyflwynir gan y Pwyllgor.

4.25 Bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y nifer o Aelodau sydd eu hangen i wasanaethu ar y Pwyllgor ac a ddylai'r Pwyllgor gynnwys aelod Cabinet ai peidio.

**Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu**

4.26 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu y dylid cymhwyso'r egwyddorion canlynol ar gyfer penodi Cadeiryddion pan fydd amgylchiadau lle mae dau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a lluo-bwyllgorau craffu.

4.27 Yr egwyddor cyntaf yw mai dim ond cynifer o Gadeiryddion ag sy'n gyfrannol i gyfran aelodaeth gyffredinol y Cyngor, o'u cymryd gyda'i gilydd a'u talgrynnu i lawr os na fydd hyn yn cyfateb i gyfanrif y Cadeiryddion, y gall y grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cabinet eu penodi.

4.28 Yr ail egwyddor yw bod y gweddill o'r Cadeiryddion Craffu'n "eiddo" y grwpiau hynny nad sydd wedi'u cynrychioli yn y Cabinet. Os mai un grŵp o'r fath yn unig sydd, gallan nhw hawlio'r holl Gadeiryddion sy'n weddill. Os bydd mwy nag un grŵp o'r fath, yna mae pob un yn cael rhan o'r Cadeiryddion mewn cyfrannedd i'w haelodaeth o'r grwpiau di-Gabinet.

4.29 Os bydd grŵp gwleidyddol yn gwrthod cymryd ei ddyraniad o Gadeiryddion, ni all un o'r Cadeiryddion hynny gael ei ddyrannu i grwpiau a gynrychiolir yn y Cabinet. Dylid cynnig y lleoedd gweigion i'r grwpiau eraill.

4.30 Os bydd cyfansoddiad gwleidyddol y Cabinet yn newid, yna mae'r ymarfer o ddyrannu Cadeiryddion yn dechrau eto.

4.31 Gall y Cyngor fabwysiadu system ddyrannu wahanol ond dim ond os bydd yn ffafriol i grwpiau anweithredol. Rhaid i fwyafrif pob grŵp gefnogi pob cynnig i fabwysiadu system wahanol a rhaid i'r cynnig gael ei gymeradwyo gan benderfyniad y Cyngor Llawn gyda mwyafrif o aelodau pob grŵp gwleidyddol yn pleidleisio dros y cynnig.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r penderfyniad yn gweithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn cyfrannu at y flaenoriaeth o Gyngor sy'n perfformio'n wych.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig â ffioedd sy'n daladwy i aelod lleyg annibynnol y Pwyllgor Archwilio. Mae hyn yn ofyniad statudol ac mae wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

7.1 Roedd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'r cynghorau ar y Mesur a'r canllawiau drafft.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hwn yn newid statudol o ganlyniad i weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol. Ni ddylid bod unrhyw gostau ychwanegol sylweddol o ganlyniad i'r newidiadau i strwythur y pwyllgorau er y gellid cael rhai oherwydd sefydlu pwyllgorau ychwanegol. Bydd mân gostau'n gysylltiedig â phenodi aelodau cyfetholedig i bwyllgor archwilio. Bydd yn rhaid i unrhyw gostau gael ei talu o fewn adnoddau presennol y Cyngor.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i leihau'r rhain?**

9.1 Mae gofynion y Mesur yn orfodol a byddai methu â gweithredu darpariaethau'r Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd a phenodi Cadeiryddion Craffu, yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa lle gallai dderbyn Cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
Adran 11 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011.
Adran 70 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011.

**APPENDIX 1**

# CORPORATE GOVERNANCE COMMITTEE

**Terms of Reference**

1. Responsibilities in respect of the Council's Constitution

1.1 Article 15 of the Constitution requires the Corporate Governance Committee to monitor and review the operation of the Constitution. It shall make proposals for changes to ensure that the Constitution continues to:

- enable the Council to provide clear leadership to the community in partnership with citizens, businesses and other organisations;
- enable decisions to be taken efficiently and effectively;
- ensure that those responsible for decision making are clearly identifiable to local people and that they explain the reasons for decisions;
- create effective means of holding decision-makers to public account;
- ensure that no one will review or scrutinise a decision in which they were directly involved;
- support the active involvement of the citizens in the process of local authority decision-making;
- help members represent their constituents more effectively; and
- provide a means of improving the delivery of services to the community.

1.2 In undertaking this task, the Corporate Governance Committee may:

- observe meetings of different parts of the member and officer structure;
- undertake an audit trail of a sample of decisions;
- record and analyse issues raised with by councillors, officers, the public and other relevant stakeholders; and
- compare practices in this Council with those in other comparable authorities, or national examples of best practice.

1.3 When carrying out functions under this Article the membership of the Corporate Governance Committee shall include as voting members the Chair of the Council together with one member from any political group not otherwise represented on the Committee.

1.4 The Corporate Governance Committee shall conduct a review of the Constitution on an annual basis with recommendations in accordance with 1.1.

2 Responsibilities in respect of corporate governance

2.1 Review the Council's arrangements for corporate governance and agree necessary actions to ensure compliance with best practice.

2.2 Monitor the Council's compliance with its own and other published standards and controls.

2.3 Oversee the production of the Council's Annual Governance Statement and recommend its adoption.

2.4 Refer issues for action to other Council committees as deemed appropriate and request responses to ensure that issues are followed up.

2.5 Act as the Audit Committee of the Council.

2.6 Provide an annual report to Council on the Committee's performance and effectiveness.

2.7 Monitor the attendance of Members at meetings with guidance from the Monitoring Officer

3 Responsibilities in respect on internal & external audit

3.1 Consider the audit planning strategies of the internal and external auditors, including the external audit fee.

3.2 Consider the annual reports and opinions of the internal and external auditors.

3.3 Consider individual internal audit and external regulator reports including but not limited to those from the Wales Audit Office, the Office of Surveillance Commissioners and the Information Commissioner's Office.

3.4 Review progress in delivering the Internal Audit Strategy.

3.5 Consider management's response to issues raised by the internal auditor and external regulators and, where appropriate, request a response from management.

3.6 Review the performance of the internal and external auditors on an annual basis

3.7 Hold periodic private meetings with the internal and external auditors.

4 Responsibilities in respect of the financial accounts

4.1 Review and approve the Council's statement of accounts, ensuring that proper accounting policies have been followed and that all concerns arising from the audit are brought to the attention of the Council.

5 Responsibilities in respect of risk management

5.1 Monitor the effective development and operation of risk management within the Council.

5.2 Review the Corporate Risk Register and, where appropriate, request a response from management on actions to manage risks.

6 Responsibilities in respect of fraud & corruption

6.1 Monitor Council policies on whistleblowing, fraud and corruption and complaints (including Ombudsman).

6.2 Receive, on a quarterly basis, summary reports of all suspected irregularities, including any instances of fraud and corruption, from the Head of Internal Audit & Risk Management.

7 Responsibilities in respect of complaints

7.1 Receive, on a six monthly basis, statistical reports and details of the complaints received and investigated through the County Council's Complaints Procedure and the outcome of those investigations.

7.2 Review, on an annual basis, the results of investigations carried out under the County Council's Complaints Procedure, and review the operation of the Procedure, recommending to Council any modifications that it considers necessary.

7.3 Review on an annual basis the results of complaints made to the Information Commissioners Office regarding complaints under the Freedom of Information Act, the Data Protection Act and the Environmental Information Regulations.

8 Responsibilities in respect of treasury management

8.1 Scrutinise the Council's Treasury Management Strategy Statement and the Annual Report on Treasury Activities before approval by Council in February and Cabinet in September respectively.

8.2 Receive on a six monthly basis, reports on Treasury Management to ensure that the Committee is updated on the latest developments in the Council's treasury activities.

8.3 Review the Council's risk exposure and its ability to manage risk in relation to its treasury management activities.

9 Membership of the Corporate Governance Committee

9.1 Six Councillors, of whom one shall be the Vice-Chair of Council, politically balanced. Members may not be Chair of Council, Cabinet members or Scrutiny Committee members, other than as provided by Article 15.2.

10 Responsibilities n respect of indemnities

10.1 Consider the level of professional representation of a member under the terms of the form of indemnity to members and officers approved by Council on 23 September 2008".

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

APPENDIX 2

# CORPORATE GOVERNANCE COMMITTEE

**Terms of Reference**

The Corporate Governance Committee's terms of reference are set out below and it will be for the Committee to determine how to exercise these functions. The Committee may require any Member or Officer of this Council to attend before it to answer questions and may invite other persons to attend meetings of this Committee.

**1. Responsibilities in respect of the Council's Constitution**

1.1 Article 15 of the Constitution requires the Corporate Governance Committee to monitor and review the operation of the Constitution. It shall make proposals for changes to ensure that the Constitution continues to:

- enable the Council to provide clear leadership to the community in partnership with citizens, businesses and other organisations;
- enable decisions to be taken efficiently and effectively;
- ensure that those responsible for decision making are clearly identifiable to local people and that they explain the reasons for decisions;
- create effective means of holding decision-makers to public account;
- ensure that no one will review or scrutinise a decision in which they were directly involved;
- support the active involvement of the citizens in the process of local authority decision-making;
- help members represent their constituents more effectively; and
- provide a means of improving the delivery of services to the community.

1.2 In undertaking this task, the Corporate Governance Committee may:

- observe meetings of different parts of the member and officer structure;
- undertake an audit trail of a sample of decisions;
- record and analyse issues raised with by councillors, officers, the public and other relevant stakeholders; and
- compare practices in this Council with those in other comparable authorities, or national examples of best practice.

1.3 When carrying out functions under this Article the membership of the Corporate Governance Committee shall include as voting members the Chair of the Council together with one member from any political group not otherwise represented on the Committee.

1.4 The Corporate Governance Committee shall conduct a review of the Constitution on an annual basis with recommendations in accordance with 1.1

**2 Responsibilities in respect of corporate governance**

2.1 Review the Council's arrangements for corporate governance and agree necessary actions to ensure compliance with best practice.

2.2 Monitor the Council's compliance with its own and other published standards and controls.

2.3 Oversee the production of the Council's Annual Governance Statement and recommend its adoption.

2.4 Refer issues for action to other Council committees as deemed appropriate and request responses to ensure that issues are followed up.

2.5 Provide an annual report to Council on the Committee's performance and effectiveness.

2.6 Monitor the attendance of Members at meetings with guidance from the Monitoring Officer

**3 Responsibilities in respect on internal & external audit**

3.1 Consider the audit planning strategies of the internal and external auditors, including the external audit fee.

3.2 Consider the annual reports and opinions of the internal and external auditors.

3.3 Consider individual internal audit and external regulator reports including but not limited to those from the Wales Audit Office, the Office of Surveillance Commissioners and the Information Commissioner's Office.

3.4 Review progress in delivering the Internal Audit Strategy.

3.5 Consider management's response to issues raised by the internal auditor and external regulators and, where appropriate, request a response from management.

3.6 Review the performance of the internal and external auditors on an annual basis

3.7 Hold periodic private meetings with the internal and external auditors in order to oversee such arrangements.

**4 Responsibilities in respect of the financial affairs**

4.1 Review, scrutinise and approve the Council's annual statement of accounts and financial affairs, ensuring that proper accounting policies have been followed and that all concerns arising from the financial statement or the audit are brought to the attention of the Council through reports and recommendations.

4.2 To keep under review the Council's Financial Regulations and Contract Procedure Rules and all other corporate directions concerning financial control including the use of delegated decisions in respect of contract awards and exemptions from tendering.

4.3 Scrutinise the Council's Treasury Management Strategy Statement and the Annual Report on Treasury Activities before approval by Council in February and Cabinet in September respectively.

4.4 Receive on a six monthly basis, reports on Treasury Management to ensure that the Committee is updated on the latest developments in the Council's treasury activities.

4.5 Review the Council's risk exposure and its ability to manage risk in relation to its treasury management activities.

**5 Responsibilities in respect of risk management**

5.1 Monitor the effective development and operation of risk management within the Council including reviewing the integrity of any risk management systems and making reports and recommendations to the Council on the adequacy and effectiveness of those arrangements.

5.2 Review the Corporate Risk Register and, where appropriate, request a response from management on actions to manage risks.

**6 Responsibilities in respect of fraud & corruption, bribery and whistleblowing.**

6.1 Monitor the Council's whistleblowing policy and it's procedural arrangements for Officers and Members to raise concerns in confidence, about possible wrongdoing in financial reporting and other matters, including appropriate follow up action.

6.2 Review the Council's policy and procedures for detecting fraud and corruption

6.3 Review the Council's systems and controls for the prevention of bribery and receive reports on non-compliance.

6.4 Receive, on a quarterly basis, summary reports of all suspected irregularities, including any instances of fraud and corruption, from the Head of Internal Audit & Risk Management.

**7 Responsibilities in respect of complaints**

7.1 Receive, on a six monthly basis, statistical reports and details of the complaints received and investigated through the County Council's Complaints Procedure and the outcome of those investigations.

7.2 Review, on an annual basis, the results of investigations carried out under the County Council's Complaints Procedure and review the operation of the Procedure, recommending to Council any modifications that it considers necessary.

7.3 Review on an annual basis the results of complaints made to the Information Commissioners Office regarding complaints under the Freedom of Information Act, the Data Protection Act and the Environmental Information Regulations.

7.4 Review on an annual basis the results of complaints of maladministration made to the Public Services Ombudsman for Wales and any follow up action or 'lessons learned' from such appeals.

**8. Responsibilities in respect of indemnities**

8.1 Consider the level of professional representation of a member under the terms of the form of indemnity to members and officers approved by Council on 23 September 2008".

**9 Membership of the Corporate Governance Committee**

9.1 The Corporate Governance Committee shall be comprised of seven members all of whom shall be entitled to one vote each. Its membership will be:

9.1.1 Six Councillors, of whom one shall be the Vice-Chair of Council, politically balanced. Members may not be Chair of Council, Cabinet members or Scrutiny Committee members, other than as provided by Article 15.2.

9.1.2 One 'independent' lay member, who is not either a Councillor or an Officer or the spouse or civil partner of a Councillor or an Officer of this Council or any other relevant authority as defined in the Local Government At 2000; nor a former Councillor or Officer of this Council.

**APPENDIX 3**

## DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE

**Terms of Reference**

1 To act as the Council's Democratic Services Committee in accordance with the provisions of the Local Government (Wales) Measure 2011.

2 To exercise the function of the Council under Section 8(1)(a) of the Local Government (Wales) Measure 2011 in designating one of the Council's officers as the Head of Democratic Services.

3 To review the adequacy of provisions by the Council of staff, accommodation and other resources to discharge democratic services functions.

4 To make reports and recommendations to Council in respect of the provisions referred to in 3 above.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **15 Mai 2012**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Teitl:** **Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau**

---

**1. Beth yw testun yr adroddiad?**

Testun yr adroddiad yw lefel y gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau i'r flwyddyn ariannol 2012/2013 a'r argymhellion a wneir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1 Mae ar y Cyngor angen cytuno'n ffurfiol ar lefel y gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau i'r flwyddyn ariannol 2012/13.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â'r symiau i'w talu ar ffurf Cyflog Sylfaenol, Uwch Gyflogau a Chyflogau Sifig.

3.2 Bod y Cyngor yn penderfynu pa swyddi fydd yn gymwys i dderbyn Uwch Gyflogau a Chyflogau Sifig.

3.3 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfraddau tâl i aelodau cyfetholedig fel yr argymhellir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

3.4 Bod y Cyngor yn mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â threuliau teithio, cynhaliaeth, ac ad-daliadau o dreuliau a gododd wrth ofalu am blant neu bobl ddibynnol eraill.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi cyhoeddi ei bedwerydd Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r gydnabyddiaeth ariannol i Aelodau ar gyfer 2012/2013. Mae'n rhaid i'r Cyngor dan S153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roi argymhellion y Panel ar waith.

4.2 Mae'r Panel eleni wedi penderfynu defnyddio ei bwerau i osod taliadau penodol yn hytrach na gosod uchafsymiau yn unig. Yn unol â hynny, dylid dileu'r rheoliadau blaenorol sy'n cyfeirio at lwfansau. Ceir bellach Gyflog Sylfaenol ac

ystod o Uwch Gyflogau. Yn ogystal â'r rhain, ceir Cyflogau Sifig i'r Pennaeth Sifig (Cadeirydd y Cyngor) a'r Dirprwy Bennaeth Sifig (Is-gadeirydd). Mae'n rhaid i'r Cyngor dalu Cyflog Sylfaenol i bob Aelod. Mae'n bosibl i'r Cyngor dalu Uwch Gyflogau a Chyflogau Sifig. Lle mae Cyngor yn dewis talu Uwch Gyflogau a Chyflogau Sifig, mae'n rhaid talu'r symiau a osodir gan y Panel ac i'r swyddi sy'n cael eu hadnabod gan y Panel.

4.3 Mae'r Panel yn disgrifio ei benderfyniad i osod taliadau penodol ar gyfer Cyflogau Sylfaenol, Uwch Gyflogau a thaliadau i Benaethiaid Sifig o ganlyniad i ymarferion ymgynghori blaenorol. Mae'r Panel wedi bod yn gofidio y gall pwysau ar awdurdodau lleol yn yr hinsawdd economaidd gyfredol i osod taliadau i Aelodau ar lefel artiffisial o isel arwain at "ras i'r gwaelod" a fyddai, ym marn y Panel, yn amhriodol ac o bosibl yn niweidiol.

4.4 Ymhellach, nododd y Panel bod y mwyafrif o gynghorau wedi mabwysiadau taliadau a oedd yn is nag uchafswm blaenorol y Panel wrth bennu lwfansau i gynghorwyr. Mae hyn wedi gweithio yn erbyn ymgais y Panel i ddatblygu fframwaith taliadau cenedlaethol cyson. Mae'r Panel felly wedi penderfynu mai'r unig ffordd i sicrhau bod Cynghorau yn gweithredu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer taliadau i gynghorwyr yn gyson yw trwy ddefnyddio ei bwerau i osod lefelau penodol. Wrth gwrs, mae cynghorwyr unigol yn cadw'r hawl i wrthod derbyn eu cyflogau'n llwyr neu'n rhannol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.5 Mae'r Panel wedi derbyn y safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i'r adroddiad drafft cychwynnol bod y cynigion gwreiddiol yn rhy gyfyngol, gyda'r potensial o effeithio'n niweidiol ar allu cynghorau i lywodraethu a rheoli'n effeithiol.

4.6 Mae'r Panel felly wedi penderfynu cynyddu cyfran uchaf aelodaeth pob cyngor all dderbyn uwch gyflog, ac i dynnu'r swydd o bennaeth sifig a dirprwy bennaeth sifig o'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn y gyfran uchaf o uwch gyflogau y gall cynghorau eu sefydlu. Gosodwyd cyfran uchaf yr aelodaeth all dderbyn taliad o Uwch Gyflog i bob Awdurdod fel a ganlyn:-

| **Awdurdod Lleol** | **Nifer y cynghorwyr** | **Uchafswm o Uwch Gyflogau %** |
|---|---|---|
| **Grŵp A** | | |
| Caerdydd | 75 | 25 |
| Rhondda Cynon Tâf | 75 | 25 |
| Abertawe | 73 | 26 |
| **Grŵp B** | | |
| Pen-y-bont | 54 | 33 |
| Caerffili | 73 | 24 |
| Sir Gaerfyrddin | 74 | 24 |
| Conwy | 59 | 30 |

| | | |
|---|---|---|
| Sir y Fflint | 70 | 25 |
| Gwynedd | 75 | 24 |
| Nedd Port Talbot | 64 | 28 |
| Casnewydd | 50 | 36 |
| Sir Benfro | 60 | 30 |
| Powys | 73 | 24 |
| Bro Morgannwg | 47 | 38 |
| Wrecsam | 52 | 34 |
| **Grŵp C** | | |
| Blaenau Gwent | 42 | 40 |
| Ceredigion | 42 | 40 |
| Sir Ddinbych | 47 | 36 |
| Ynys Môn | 40 | NA |
| Merthyr Tudful | 33 | 50 |
| Sir Fynwy | 43 | 39 |
| Torfaen | 44 | 38 |

4.7 Mae hyn yn golygu mai'r nifer uchaf o uwch gyflogau y gall Cyngor Sir Ddinbych eu cael yw dau ar bymtheg, heb gynnwys swydd Pennaeth Sifig a Dirprwy Bennaeth Sifig.

4.8 Nodir isod y Cyflogau Sylfaenol, Uwch Gyflogau a Chyflogau Sifig. Mae Sir Ddinbych yn awdurdod Grŵp C. Mae'r Cyflog Sylfaenol yr un fath ymhob cyngor. Mae uwch gyflogau yn uwch ymhob awdurdod Grŵp A a B.

| | **Grŵp A** | **Grŵp B** | **Grŵp C** |
|---|---|---|---|
| **Cyflog Sylfaenol** | £13,175 | £13,175 | £13,175 |
| **Uwch Gyflogau (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol)** | | | |
| **Band 1** | | | |
| Arweinydd | £52,700 | £47,500 | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd | £37,100 | £33,460 | £29,820 |
| | | | |
| **Band 2** | | | |
| Gweithrediaeth | £31,900 | £28,780 | £25,660 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Band 3** | | | |
| Cadeiryddion Pwyllgorau<br><br>Arweinydd y grŵp wrthblaid mwyaf | £21,910 | £21,910 | £21,910 |
| | | | |
| **Band 4** | | | |
| Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill | £16,920 | £16,920 | £16,920 |
| | | | |
| **Cyflogau Sifig (gan gynnwys Cyflog Sylfaenol)** | | | |
| Pennaeth Sifig (Maer/Cadeirydd y Cyngor) | £23,715 | £21,375 | £19,035 |
| Dirprwy Bennaeth Sifig | £18,445 | £16,625 | £14,805 |

4.9 Ni all yr un cynghorydd dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog, ac ni chaiff yr un cynghorydd ychwaith dderbyn Uwch Gyflog a Chyflog Sifig. Mae'r holl Uwch Gyflogau a'r Cyflogau Sifig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol

4.10 Mae'r Panel yn disgwyl y bydd cynghorau yn eu datganiadau cyhoeddus blynyddol o daliadau a wnaed i aelodau, er budd tryloywder, yn cynnwys taliadau o'r holl benodiadau gwasanaeth cyhoeddus a gynhelir gan aelodaeth etholedig.

4.11 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu bod yn rhaid i awdurdodau lleol dalu'r taliadau canlynol i aelodau cyfetholedig ar gyfer 2012/13:

- Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau a Chadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Archwilio £256 o dâl dyddiol (£128 am hanner dydd).
- Aelod cyffredin cyfetholedig, £198 o dâl dyddiol (£99 am hanner dydd). Mae aelod cyffredin cyfetholedig yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn a'r Pwyllgor Archwilio.

4.12 Uchafswm y taliadau sy'n ddilys yw'r hyn sydd gyfwerth â deg diwrnod llawn y flwyddyn i bob pwyllgor y bydd yr aelod wedi'i gyfethol iddo. Mae'r taliadau am amser y cyfarfodydd yn unig ond maent hefyd yn cynnwys amser a dreuliwyd yn paratoi ac yn teithio. Caiff cyfarfod hanner diwrnod ei ddiffinio fel hyd at 4 awr, a chaiff cyfarfod dydd cyfan ei ddiffinio fel dros 4 awr.

4.13 Ar gyfer 2012/13, mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i Gynghorau ddarparu uchafswm o daliad o £403 y mis i aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau sy'n wynebu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant neu

bobl eraill sy'n ddibynnol arnynt tra'n cyflawni eu dyletswyddau. Mae'n rhaid dangos derbynebau cyn y gellir talu unrhyw gostau o'r fath. .

4.14 Mae'r Panel hefyd wedi ystyried y cwestiwn o dreuliau teithio a chynhaliaeth. Maent wedi cyhoeddi nad oes unrhyw newid i'r cyfraddau teithio'r filltir y gellir eu hawlio am deithio. Mae'r cyfraddau fel a ganlyn:

45c y filltir – hyd at 10,000 milltir.

25c y filltir – dros 10,000 milltir.

5c y teithiwr y filltir – taliad i gyd-deithwyr.

24c y filltir – beiciau modur preifat.

20c y filltir – beiciau.

4.15 Mae'n rhaid cyflwyno derbynneb ddilys cyn y gellir hawlio am unrhyw ddulliau teithio eraill. Dylai aelodau gofio dewis y dull mwy cost effeithiol o deithio bob amser.

4.16 Os ydy'r Cyngor yn dymuno gosod diffiniad o fusnes swyddogol, gall gynnwys aelodau yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar ran eu hetholaethau. Roedd yr ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft yn amlygu rhai pryderon ynghylch sut y byddai dilysu honiadau o'r fath. Awgrymir felly na ddylid cynnwys hyn yn y diffiniad o fusnes swyddogol.

4.17 Mae'r cyfraddau cynhaliaeth fel a ganlyn; bydd haid cyflwyno derbynneb ddilys gyda phob cais.

- uchafswm o £28 y dydd gan gynnwys brecwast os nad yw wedi'i gynnwys yn y costau aros dros nos.
- costau dros nos hyd at uchafswm o £150 yn Llundain, £120 yng Nghaerdydd a £95 bobman arall, y noson.
- uchafswm o £25 y noson os yn aros gyda chyfeillion neu deulu.

4.18 Ni thelir costau cynhaliaeth am fusnes swyddogol sy'n digwydd o fewn ffiniau'r sir.

4.19 Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol gadw cofnod blynyddol o daliadau aelodau, ac mae'n rhaid cyhoeddi manylion y cofnod cyn gynted â bod hynny'n ymarferol, ac erbyn 31 Gorffennaf 2012 fan bellaf.

4.20 Mae'n rhaid i'r awdurdod anfon manylion y cofnod i'r Panel cyn gynted â bod hynny'n bosibl ar ôl cwblhau'r taliadau, ac erbyn 31 Gorffennaf 2012 fan bellaf.

4.21 Mae'n rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi o fewn yr ardal y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflog, lwfansau, taliadau ac ad-daliadau cyn gynted â bod hynny'n ymarferol, ac erbyn 30 Medi 2013 fan bellaf.

4.22 Yn unol â'r Mesur, mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Awgrymir mai'r Pwyllgor Archwilio fydd y

Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n bosibl na fydd yn rhaid i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfarfod yn amlach nag unwaith y flwyddyn, ac mae ei gylch gorchwyl yn eithaf cyfyngedig. Awgrymir na ddylai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dderbyn Uwch Gyflog.

4.23 Os gaiff yr awgrymiadau a wneir yn 4.22 eu mabwysiadu, byddai'r swyddi canlynol yn derbyn Uwch Gyflog:

| **Swydd** | **Band** | **Cyflog** |
|---|---|---|
| Arweinydd | Band 1 | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd | Band 1 | £29,820 |
| Aelod Cabinet x 6 | Band 2 | £25,660 |
| Cadeirydd Pwyllgor Craffu x 3 | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Band 3 | £21,910 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio / Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | Band 3 | £21,910 |

Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 14 Uwch Gyflog.

4.24 Mae pennu unrhyw swyddi eraill i fod yn gymwys am Uwch Gyflog yn dibynnu ar benodiad Aelodau i'r swyddi sydd wedi'u nodi yn 4.23. Os yw'r holl grwpiau gwleidyddol wedi'u cynrychioli yn y Cabinet, ni fydd Grŵp Gwrthblaid, ac felly ni fydd Arweinydd o'r Grŵp Gwrthblaid Mwyaf.

4.25 Os gaiff unrhyw Arweinwyr Grŵp eu penodi i'r swyddi a restrir yn 4.23, yna ni fyddant yn gymwys i dderbyn Uwch Gyflog Band 4 gan nad yw'n bosibl i unrhyw Aelod dderbyn mwy nag un Uwch Gyflog.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r penderfyniad yn rhoi ar waith ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn cyfrannu at y flaenoriaeth o sicrhau Cyngor sy'n perfformio'n uchel.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Cyfanswm cost 31 Cyflog Sylfaenol, Cyflog Pennaeth Sifig a Dirprwy Bennaeth Sifig, a 14 Uwch Gyflog fyddai £799,805. Bydd y materion dan sylw ym mharagraffau 4.24 a 4.25 a'r taliadau teithio, cynhaliaeth ac Aelodau Cyfetholedig yn pennu cost llawn y Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1 Cynhaliwyd ymgynghoriadau eang ar adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas

Llywodraeth Leol Cymru  Cafodd yr adroddiad ei addasu yn dilyn yr ymgynghoriadau.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

Mae'n ofyniad statudol i dalu cyflogau ar y raddfa hon. Mae'n bosibl talu'r costau o fewn y cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**9. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Os nad yw'r Cyngor yn rhoi ar waith ofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, mae gan y Gweinidogion Cymraeg y pŵer i orchymyn i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r gofynion, a gallant orfodi unrhyw orchymyn o'r fath trwy osod gorchymyn gorfodol.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Blaengynllun Gwaith y Cyngor Sir

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | | **Diben yr adroddiad** | **A oes angen Penderfyniad y Cyngor (oes / na)?** | **Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 Mai (Cyfarfod Blynyddol) | 1 | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Cyngor Sir | I benodi Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig | Oes | Gary Williams / Eleri Woolford / Steve Price |
| | 2 | Ethol Arweinydd y Cyngor | I ethol Arweinydd y Cyngor | Oes | Gary Williams |
| | 3 | Newidiadau cyfansoddiadol yn sgil Mesur Llywodraeth Leol | Yn cynnwys trefniadau ar gyfer pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, proses penodi aelodau lleyg a chadeiryddion craffu | Oes | Gary Williams |
| | 4 | Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Aelodau | I fabwysiadu trefniadau yn sgil adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Oes | Gary Williams |
| | | | | | |
| 22 Mai (cyfarfod arbennig) | 1 | Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol | Adolygiad blynyddol statudol o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol | Oes | Gary Williams / Steve Price |
| | 2 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu | Adrodd ar weithgareddau'r pwyllgorau craffu yn ystod 2011 / 12. | Nac oes | Rhian Evans / Rhys Hughes |
| | | | | | |

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Diben yr adroddiad | A oes angen Penderfyniad y Cyngor (oes / na)? | Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 Gorffennaf | 1 | Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Cyd ar Draphont Ddŵr Pontcysyllte a Safle Treftadaeth y Byd - Camlesi | Ceisio mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol | Oes | Eleri Evans / Graham Boase |
| | | | | | |
| 11 Medi | 1 | Datganiad Polisi Tâl | | Oes | Linda Atkin |



**Cyfarfod y Dyfodol**

| Dyddiad | Eitem (disgrifiad / teitl) | Diben yr adroddiad | A oes angen penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)? | Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Medi 2012 (i'w gadarnhau) | Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2010 / 2011 | Cymeradwyo dogfen Adolygu Perfformiad Blynyddol y Cyngor. | Oes | Tony Ward / Alan Smith |
| Cyfarwyddyd i'r Cyngor - Dyddiad i'w gyhoeddi | Cyflwyniad gan y Swyddog Cartrefi Gwag | Cynigiwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 1 Rhagfyr 2011 i hysbysu ynglŷn â rolau ac amcanion y swydd | Nac oes | I'w gadarnhau |
| Cyfarwyddyd i'r Cyngor - Mehefin / Gorffennaf | Cyflwyniad ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, y Fforwm Rhianta Corfforaethol a chyfrifoldebau rhianta | Cynghori Aelodau o'u rolau a gwybodaeth ar drefniadaeth a pherfformiad. | Amherthnasol | Julie Moss |

Blaengynllun Gwaith y Cyngor Sir

| Dyddiad | Eitem (disgrifiad / teitl) | Diben yr adroddiad | A oes angen penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)? | Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| 2012 | corfforaethol cynghorwyr | | | |

Diweddarwyd 8/5/2012 - SP

Council Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag